



Briff Ymchwil CASCADE

Gwerthuso Gwasanaeth Canllawiau Rhyngweithio trwy Fideo Cyngor Cernyw

Dr Nina Maxwell, Dr Alyson Rees a Dr Anne Williams

Negeseuon Allweddol o ran Polisi ac Ymarfer

- Mae Canllawiau Rhyngweithio trwy Fideo (VIG) yn ymyriad seiliedig ar gryfderau sydd wedi'i gyfyngu gan amser. Mae'n cynnwys recordiad fideo o'r rhyngweithio cadarnhaol rhwng rhieni a'u plant. Dyluniwyd yr ymyriad i'w ddefnyddio mewn achosion lle mae ansensitifrwydd gan rieni i'w plant, anawsterau ymlyniad (*attachment*) a diffyg gallu i adlewyrchu wedi'u nodi.
- Yn y gwerthusiad hwn, cafodd VIG ei gysylltu â manteision parhaol. Fe gafodd effaith arwyddocaol ar gysylltiad (*attunement*) rhieni a chynnydd mewn ymwybyddiaeth. Profodd yr ymyriad i fod yn addas ar gyfer rhieni gydag amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys pryderon ynghylch iechyd meddwl y rhiant, anawsterau dysgu'r rhiant a'r plentyn, trais domestig a rhianta plentyn heriol ar draws ymyrraeth gynnar, plant mewn angen a statws amddiffyn plant.
- Roedd cynnal VIG yn amgylchedd y cartref yn gwella'r profiad i'r rhieni a'r plant, ac roedd plant yn mwynhau bod yn rhan weithredol o'r broses. Roedd rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfle i adeiladu ar eu cryfderau ac i wella eu sgiliau rhianta mewn amgylchedd cefnogol.
- Daeth yn amlwg bod y Tywysydd VIG (*VIG Guider*) yn rhan annatod o'r dull. Mae'r Tywysydd yn unigolyn sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig sy'n gweithio gyda'r rhiant ac yn cefnogi'r broses o newid. Roedd cyfle i'r rhieni adlewyrchu i wella eu sgiliau. Dywedodd llawer o rieni wrth ddod yn fwy cyfarwydd â'u plant, yn benodol drwy roi gofod ac amser i'w plentyn fynegi eu hanghenion eu hunain, bod y cysylltiad neu'r 'bond' wedi tyfu rhyngddynt.
- Chwe mis ar ôl yr ymyriad, dywedodd rhieni eu bod yn parhau i ddefnyddio'r technegau, roeddent yn fwy tebygol o adlewyrchu ar eu rhianta ac roedd ganddynt ragor o ymwybyddiaeth o beth i'w wneud i unioni materion neu i wella eu dull.
- Mae'n ymddangos bod yr ymyriad yn ategu gwasanaethau eraill drwy wella hyder mewn sgiliau rhianta. Roedd VIG hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth broffesiynol o'r gwelliant yng ngalluoedd rhianta y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.



Beth yw Canllawiau Rhyngweithio trwy Fideo?

Mae Canllawiau Rhyngweithio trwy Fideo (VIG) yn ymyriad sy'n seiliedig ar gryfderau wedi'i anelu at weithio gyda rhieni neu ofalwyr i wella perthnasoedd o fewn y teulu. Mae'r ffocws hwn ar berthnasoedd teuluol a phwysleisio cryfderau rhiant/gofalwr yn cyfateb â chynnydd mewn cydnabyddiaeth o effeithiolrwydd gwaith cefnogi teuluoedd sy'n seiliedig ar gryfderau a'i dwf mewn gwasanaethau teulu sy'n cynnwys ymyrryd ac atal yn gynnar. Mae'r broses VIG yn dechrau gyda rhieni neu ofalwyr yn cydnabod neu'n mynegi awydd am newid. Mae 'Cynghorwyr VIG' hyfforddedig yn modelu ymddygiad cydnaws (*attuned*) gyda rhieni ac yn mabwysiadu safiad cefnogol ar gyfer y broses hon o newid. Mae VIG yn cynnwys o leiaf un 'cylch' sy'n cynnwys un recordiad fideo o ryngweithio dilys ac un sesiwn adolygu o elfennau o'r fideo sydd wedi'u dethol yn ofalus ac sy'n dangos rhyngweithio llwyddiannus. Mae'r Tywysydd a'r rhiant yn adolygu'r momentau meicro hyn gan ganolbwyntio ar y *berthynas* rhwng plentyn a rhiant/gofalwr, yn hytrach nag *ymddygiad* y naill neu'r llall drwy adlewyrchu ar y defnydd o gyfathrebiadau sensitif ac ymatebol i annog rhyngweithio cadarnhaol (Kennedy et al, 2010). Ar ddiwedd y sesiwn adolygu, mae rhieni yn penderfynu beth yr hoffent ei wella ac mae'r cylch yn ailadrodd hyd nes eu bod yn cyflawni'r ymddygiad dymunol (Doria et al, 2013).

Yr astudiaeth ymchwil

Comisiynodd Cyngor Cernyw werthusiad annibynnol o'i Wasanaeth Canllawiau Rhyngweithio trwy Fideo (VIG) ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2015 hyd 31 Awst 2016. Mabwysiadodd y gwerthusiad ddull cymysg ansoddol a oedd yn cynnwys: i) dadansoddiad o'r data allbwn ac effaith a gasglwyd gan y Gwasanaeth VIG (1 Medi 2015 – 11 Hydref, 2016) a ii) cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag atgyfeirwyr a chleientiaid. Cynhaliwyd y set gyntaf o gyfweiliadau gyda'r 13 o gleientiaid a oedd wedi cwblhau'r ymyriad o fewn y cyfnod 1 Chwefror 2015 hyd at 31 Mawrth 2015, a gyda'r ymarferwyr a oedd wedi atgyfeirio'r cleientiaid hyn i'r Gwasanaeth VIG. Cynhaliwyd yr ail set o gyfweiliadau tua chwe mis ar ôl i'r ymyriad ddod i ben.

Nod y gwerthusiad oedd pennu p'un a oedd y Gwasanaeth VIG yn bodloni ei amcan o gael effaith gadarnhaol ar blant a theuluoedd, ac i bwysu a mesur y ffactorau sy'n cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus er mwyn llywio gwasanaethau'r dyfodol. Mae'r briff hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau sy'n deillio o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda 13 o'r 33 o rieni/gofalwyr a oedd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth VIG. Bydd copi o'r adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar wefan CASCADE.

Prif ganfyddiadau: Yn syth ar ôl yr ymyriad

Roedd amrywiad ymhlith y rhieni/gofalwyr hynny a gyfwelwyd o ran hyd a natur eu cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd gan rai hanes hir o ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol, tra bo eraill wedi'u hatgyfeirio gan ymwelwyr iechyd. Roedd nifer y cylchoedd VIG yn amrywio o 3 i 13 a'r dosau'n cael eu teilwra i anghenion y teulu. Fe newidiodd rhai ymyriadau wrth i'r rhiant fynd drwy'r rhaglen, er enghraifft gan gynnwys plant eraill yn y recordiad fideo neu weithio gyda gwahanol gyfuniadau o rieni a phlant. Roedd hyn yn golygu bod modd mynd i'r afael â'r dynamig rhwng y rhiant/gofalwr a'r gwahanol blant yn y teulu.

Mae'r ethos sy'n sail i ddull VIG yn seiliedig ar gryfderau, gan dynnu ar ddysgu cyfryngol a hunan-fodelu. Nododd pob rhiant eu bod wedi gosod eu nodau eu hunain gyda chymorth y Tywysydd, a bod hyn wedi'u grymuso. Mae'r model yn rhoi amser i rieni adlewyrchu ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda, ac adeiladu ar hynny. Mae'r gallu i symud ymlaen yn rhoi hwb i rieni. Mae'n bosibl mai un o agweddau mwyaf gwerthfawr y profiad VIG oedd y cysondeb a'r berthynas a oedd yn datblygu rhwng rhieni a'r Cynghorwyr, a rhwng y Cynghorwyr a'r plant, '*roedd y Tywysydd yn dda, roedd hi'n hyfryd ac fe wnaeth i ni deimlo'n gartrefol, roedd hi'n rhyngweithio'n dda gyda'r plentyn hefyd*' (Cyfranogwr 3). Felly, roedd y Tywysydd yn

meddu ar sgiliau cyfathrebu da iawn gyda'r rhiant a'r plentyn ac roedd yn modelu ymddygiad cydnaws yn unol â theori dysgu gymdeithasol (Bandura. 1986) yr oedd rhieni yn gallu ei efelychu.

Dywedodd llawer o rieni, drwy ddod yn fwy cyfarwydd â'u plant, yn benodol drwy roi gofod ac amser i'r plentyn fynegi ei anghenion ei hun, tyfodd y cysylltiad rhyngddynt, *'Ein helpu ni i ryngweithio â 'Sam' a gwrando arno fwy pan mae'n dod i chwarae a phethau felly, a'i ddeall ychydig yn well'*. (Cyfranogwr 5). Wrth i'r rhieni ddod yn fwy cyfarwydd â'u plant, roeddent yn ymateb yn gadarnhaol i'r newid hwn mewn cysylltiad, o bosibl o ganlyniad i deimlo yn fwy diogel, *'Mae'n helpu plant gyda'u swildod, roedd fy mab i wrth ei fodd yn cymryd rhan. Roedd e'n cyffroi bob tro yr oedden ni'n ei wneud'*. (Cyfranogwr 6).

Prif ganfyddiadau: Chwe mis ar ôl yr ymyriad

Roedd pob un o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld eto yn dal i fod yn gadarnhaol iawn am VIG, byddai pob un yn ei argymhell i eraill a phob un namyn un o'r farn ei fod wedi cael effaith barhaol ar eu rhianta. Fel y nododd Cyfranogwr 1, *'Mae wedi fy ngwneud i'n fwy cadarnhaol...ac i fod yn fwy cadarnhaol gyda hi a pheidio â bod yn negyddol'*. Dywedodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr eu bod wedi parhau i ddefnyddio'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu o'r VIG ac o ganlyniad, roeddent yn teimlo eu bod yn llawer mwy cyfarwydd â'u plant ac mae'r gwelliant hwn wedi'i gynnal, *'Nawr, does gen i ddim problemau gyda fy mab, rydw i'n cadw golwg ar sut ydw i'n siarad ag ef, rydw i'n ei gynnwys mewn pethau. Rydw i'n hapusach, mae e'n hapusach, mae'n anodd credu lle'r oedden ni 12, 18 mis yn ôl'*. (Cyfranogwr 10). Hyd yn oed pan mae rhieni bob amser yn cadw mewn cof yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu o VIG drwy'r amser, roedd yn golygu eu bod yn adlewyrchu mwy ar eu rhianta ac roedd yn eu helpu i ystyried sut allant barhau i wella, *'Rydw i dal yn eu defnyddio, efallai ddim ar y pryd bob tro, dwi'n meddwl am y peth wedyn ac yn meddwl y dylwn i wedi gwneud hyn, efallai y dylwn i ymddiheuro a dysgu o'r profiad eto'*. (Cyfranogwr 10)

Mae'n ymddangos y gall VIG weithio yn dda ar ei ben ei hun neu fel rhan o amrywiaeth o wasanaethau. Caiff hynny ei bennu yn ôl anghenion y teulu. Nid yw'n gwrthdaro â dulliau eraill ac mae'n seiliedig yn y cartref. Er bod amrywiaeth o weithwyr proffesiynol wedi ymwneud a theulu 3, nododd y cyfranogwr, *'Rydw i'n credu mai'r VIG oedd y rhan orau gan ei fod yn dangos i ni nad oedden ni'n colli rheolaeth, gan ein bod ni'n teimlo fel ein bod ni'n colli rheolaeth... Yn amlwg roedd y Therapydd Galwedigaethol fwy am ei anghenion synhwyrdd ac roedd y Seicoleg Addysgol yn ymwneud â'i fywyd yn yr ysgol. Roedd VIG mwy am y cartref a beth oedden ni'n ei wneud'*. Mewn rhai achosion roedd gweithio gyda VIG hefyd yn helpu gweithwyr proffesiynol eraill i ymddiried yn y rhieni yr oeddent wedi cael perthynas amwys a nhw yn flaenorol, a gweld eu cryfderau, *'Oedd mi oedd gan ei fod yn dangos i'r gweithwyr gymdeithasol mod i'n gallu cael cysylltiad â'm plentyn, ac roedd e'n cefnogi Dadi'*. (Cyfranogwr 12).

Fe nododd y rheiny a oedd yn cymryd rhan nifer o agweddau ar VIG a oedd yn ei wneud yn ymyriad arbennig o gadarnhaol a pharhaol. Cafodd ei nodi fod VIG yn wahanol i ymyriadau eraill gan mai dim ond at y pethau cadarnhaol y tynnwyd sylw, *'...roedd dod o hyd i rywbeth da yno yn rhoi hwb mawr i mi nad oeddwn i'n hollol wael am wneud popeth'* (Cyfranogwr 10). Felly, nid oedd VIG *'yn ymwneud a dysgu technegau i ni'* (Cyfranogwr 3), ond mwy am adeiladu ar eu cryfderau eu hunain a chanolbwyntio ar yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn dda. Un ffactor pwysig arall a nodwyd gan Gyfranogwr 10 yw bod VIG yn syml ac yn hawdd ei ddilyn, *'Doedd y broses ddim yn rhy gymhleth felly roedd yn eithaf hawdd cofio sut i wneud y pethau gan nad oedd wedi'i osod mewn ffordd gymhleth. Roedd yn hawdd iawn ei ddilyn a'i ddeall a dyna pam ei fod wedi aros gyda ni am gryn dipyn o amser'*. Roedd y ffaith fod rhieni yn gweld eu hunain yn rhyngweithio â'u plant hefyd yn rymus ac fe arhosodd y ddelwedd weledol gyda nhw, fel y dywedodd un cyfranogwr, roeddent yn gallu, *'gweld eich hunain yn ei wneud go iawn'* (Cyfranogwr 6). Mae'r math hwn o ddysgu drwy brofiad (Kolb 1984) yn effeithiol o ran galluogi pobl i fod yn gyfrifol am eu newid eu hunain.



Casgliad

Dangosodd y canfyddiadau fod VIG yn cynnig dull gweithredu seiliedig ar gryfderau sy'n cael ei werthfawrogi gan rieni ac mae'n ymddangos ei fod yn arwain at wella cysylltiad ac ymwybyddiaeth rhieni o sut y mae eu sgiliau rhianta yn effeithio ar y berthynas sydd ganddynt â'u plentyn. Roedd teimpladau cadarnhaol tuag at Gynghorwyr VIG a'u bod yn rhan annatod o'r ymyriad. Eglurodd Cynghorwyr y dull mewn ffordd syml, ac roedd rhieni yn cofio hynny'n glir chwe mis ar ôl i'r gwaith ddod i ben. Roedd cael yr un Tywysydd drwy gydol yr ymyriad yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan fod rhieni yna'n teimlo eu bod yn gallu a'u bod yn gyfforddus i ddatblygu eu sgiliau mewn amgylchedd llawn ymddiriedaeth.

Dangoswyd fod Canllawiau Rhyngweithio trwy Fideo yn arwain at fanteision ac effeithiau parhaol ar gyfer amrywiaeth o deuluoedd, gan gynnwys y rhai mewn perygl bod proses mabwysiadu yn chwalu, plant gydag anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl plentyn/rhiant. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, mae'n ymddangos bod VIG yn ymyriad defnyddiol sydd wedi'i gyfyngu gan amser ar gyfer amrywiaeth o anawsterau lle mae gofyn gwella perthnasau ac ymlyniad teuluol.

Rhagor o fanylion

Cafodd y gwerthusiad hwn ei gomisiynu a'i ariannu gan Gyngor Cernyw, ac fe'i cynhaliwyd o fis Ionawr 2015 i fis Rhagfyr 2016. Mae'r adroddiad llawn ar gael drwy:

<http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/research/research-projects/video-interaction-guidance-service-evaluation/>

Cyfeirnodau

Bandura, A. (1986) Social foundations of thought and action: A social cognitive theory. Englewood Cliffs, NJ: Prentice Hall.

Doria, M. V., Kennedy, H., Strathie, C. & Strathie, S. (2013). Explanations for the success of video interaction guidance: An emerging method in family psychotherapy. *The Family Journal: Counseling and Therapy for Couples and Families*, 22(1), 1-10.

Kennedy H, Landor M & Todd L. (2010). Video Interaction Guidance as a method to promote secure attachment. *Educational & Child Psychology*. 27(3), 59-72.

Kolb, D.A. (1984). *Experiential learning: experience as the source of learning and development*. Englewood Cliffs, NJ: Prentice Hall.

Mae CASCADE yn ymwneud â phob agwedd ar ymatebion cymunedol i anghenion cymdeithasol plant a theuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau cymorth teuluoedd, gwasanaethau plant mewn angen, amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal, a mabwysiadu.

<http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/cy/> cascade@caerdydd.ac.uk [@cascaderesearch](https://twitter.com/cascaderesearch)

Sefydliad gofal cymdeithasol Cymru-gyfan yw ExChange, sy'n galluogi ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaethau, ac ymchwilwyr i rannu arbenigedd a phrofiad.

<http://www.exchangecymru.org/> cysylltu@exchangecymru.org [@exchangewales](https://twitter.com/exchangewales)